

Ar hosi di **amdanaf gyda ‘r llwch**

I'm gwraig sy'n aros bob dydd

Gan Liu Xiaobo, cyfieithiad Cymraeg gan Menna Elfyn

Pa weddill sydd i'th enw, dim
ond yr aros amdanaf, ynghyd â llwch ein cartref
Yr haenau hynny
a gronnodd, gorlifo ymhob twll a chornell
a thithau, anfodlon wyt i dynnu'r llenni
a gadael y golau i ymyrryd â'u distawrwydd.

Dros y silff lyfrau, mae'r label mewn llawysgrifen
wedi ei daenu gan lwch,
ar y carped, anadlu'r llwch a wna'r patrwm
pan ysgrifenni di lythyr ataf
bydd cariad ar fin ysgrifbin yn llwch
fy llygaid ,eu gwanu gan boen

Eisteddi yno drwy'r dydd ar ei hyd
yn ofni cyffro
rhag ofn y bydd olion dy draed yn baglu'r llwch
gwnei dy orau i reoli dy anadl
gan ddefnyddio tawelwch i 'sgrifennu'r stori.

Ar adegau fel hyn,
llwch sy'n mygu rhywun
fel yr unig deyrngarwch sydd ar gael.

dy weledigaeth, anadl ac amser
sy'n treiddio i waelod pwll dy enaid,
a'r beddrod sydd fodfedd wrth fodfedd
yn tyrru o'm traed i fyny
gan gyrraedd fy mron
cyrraedd fy ngwddf

gwyddost yn dda mai beddrod
yw'r lle gorau i orffwys
gan aros yno amdanaf
heb y gallu i ofni na dychryn
a dyna pam ei bod yn well gennyt
y llwch yn y tywyllwch, cael a chael am anadl
rhag mygu, gan aros, disgwyl, sefyll amdanaf,
aros wnei di gyda llwch

gan wrthod golau'r haul a symudiad yr aer
dim ond gadael y llwch i'th gladdu yn llwyr
dim ond gadael dy hun i gysgu yn y llwch
nes i mi ddychwelyd
a byddi'n deffro bryd hynny
gan sychu'r llwch oddi ar dy groen a'th enaid.

Am wyrth—dychwelyd o farw yn fyw.

Ebrill 9fed, 1999